

Dogfen Cynnig Cyfranddaliadau Y Tŷ Gwyrdd

Dyfernir y Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol gan yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol i gynigion sy'n bodloni safonau cenedlaethol o arfer da.

I gael rhagor o wybodaeth am gyfranddaliadau cymunedol, y Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol a'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol ewch i:

<https://www.uk.coop/start-new-co-op/support/community-shares/standards>

FCA cofrestrriad # 8412 | Gellir dod o hyd l'r ddogfen lywodraethu yma <https://mutuals.fca.org.uk/Search/Society/30683>

www.ytygwyrdd.cymru

FB: @ytygwyrdd

Instagram: @ytygwyrdd

E: helo@ytygwyrdd.cymru



Community
Shares

STANDARD



Y Tŷ Gwyrdd

CYNNWYS

Y Cynnig	1
Yr hanes hyd yma	2
Gwybodaeth am y Cynnig Cyfranddaliadau Cymunedol.....	4
Gwybodaeth Cyfranddalwyr	5
Beth ydym ni'n ei wneud?	6
Cyllid	7
Ymgysylltu â'r Gymuned.....	10
Mwy o Wybodaeth/ Pethau Cyfreithiol!	11
Cwrdd â'r Tîm	12
Yn Gweithio mewn Cydweithrediad â	15
Yn falch o gael cefnogaeth gan	16

'Trwy fyw, gwirfoddoli, a gweithio yn yr ardal rwyf wedi cael fy ysbrydoli gan greadigrwydd a chyfeillgarwch y gymuned leol. Hoffwn ymuno â'r mudiad i wneud cyfraniad cadarnhaol a sbarduno newid i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yma. Fe wnaeth hyn, ynghyd â fy nghariad at yr awyr agored ac amddiffyn ein hamgylchedd, fy ysgogi i sefydlu Y Tŷ Gwyrdd, menter gymdeithasol newydd yn Ninbych.

Mae tystiolaeth gref i ddangos bod cynnydd mewn ymwybyddiaeth ac awydd cynyddol i gefnogi gostwng ein heffaith ar yr amgylchedd a diogelu'r byd naturiol o'n cwrpas. Er mwyn gwrthio cynnydd, rwy'n credu bod angen i fwy o opsiynau fod ar gael am brisiau fforddiadwy, a mwy o gyfleoedd i hwyluso economi gylchol.'

Sylfaenydd Y Tŷ Gwyrdd, Marguerite Pearce

'Mae dyfodol bywyd ar y ddaear yn dibynnu ar ein gallu i weithredu'.

Sir David Attenborough



Y CYNNIG

Dyma wahoddiad i chi ddod yn gyfranddaliwr Y Ty Gwyrdd, i fod yn rhan o ddatblygu'r cyfleuster cymunedol cydweithredol hwn yn Ninbych i ddarparu'r hyn rydych ei angen a'i eisiau yn eich tref.

Ymunwch â ni i gefnogi a bod yn rhan o'r fenter newydd gyffrous hon.

Bydd arian a godir o'r cynnig cyfranddaliadau hwn yn cael ei ddefnyddio i helpu i sicrhau bod arian grant sylweddol ar gael ar gyfer caffael a datblygu safleoedd parhaol sy'n eiddo i'r gymuned, gyda'r nod o helpu i adfywio canol y dref, dathlu a hyrwyddo cymuned leol, darparu cyfleoedd cyflogaeth cyflog byw gwirioneddol a gwirfoddoli, a chefnogi amgylchedd mwy cynaliadwy i ni a chenedlaethau'r dyfodol gyda'n gilydd.

Helpwch ni i gyflawni gweledigaeth gyfunol ~ ysbrydoli newid i gefnogi dyfodol cynaliadwy.

Bydd y cynnig cyfranddaliadau yn rhedeg trwy gydol Mai gan ddechrau ddydd Sadwrn 1 Mai a dod i ben ddydd Llun 31 Mai.

Yr isafswm buddsoddiad yw £30.

Bachwch ar y cyfle gwyh hwn yn gyflym rhag colli allan!

Cofrestrwch yma: www.ytygwyrdd.cymru | helo@tygwyrdd.cymru



YR HANES HYD YMA

Wedi'u gwreiddio yn Ninbych, tref farchnad draddodiadol Gymreig gyda thoreth o hanes.

Sefydlwyd Y Tŷ Gwyrdd gyda'r nod o greu gofod cymunedol cydweithredol, adeilad sy'n cynnig cyfleusterau a gweithgareddau a gynlluniwyd ac a redir gan bobl leol. Mae gan drefi a phentrefi eraill yng Ngogledd Cymru hyn – gall Dinbych hefyd!

Mae Y Tŷ Gwyrdd yn gymdeithas budd cymunedol a sefydlwyd gan bobl leol i gynnig lle cynhwysol a chroesawgar, i ddathlu a hyrwyddo'r bobl a'r mentrau ysbrydoledig yn ein cymuned, ac i helpu i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd trwy gynnig opsiynau a chyfleoedd dim gwastraff fforddiadwy a hygyrch i hwyluso economi gylchol.

'lleihau, aildefnyddio, trwsio a rhannu!'

Ar hyn o bryd rydym wedi ein lleoli yn hen safle Threads yn (Lôn Gefn) Dinbych, yr ydym yn ei baratoi i'w agor erbyn diwedd mis Mai (os bydd cyfyngiadau covid-19 yn caniatáu). Mae hwn yn gyfleuster a rennir gyda siop sy'n darparu bwydydd ail-lenwi o ffynonellau lleol, nwyddau cartref, cyflenwadau garddio a chelf a chrefft lleol. Rydym yn cynnig diodydd a byrbrydau lleol blasus i fynd. Rydym yn bwynt casglu TerraCycle cofrestredig.

Ymhlith y tenantiaid preswyl mae Tanyards Eco-Gardening, reSource CIC, celf decstilau Elysia, a Storys Studio.

Ein dyhead yn y dyfodol er mwyn bod yn gynaliadwy a darparu ar gyfer pawb yw sicrhau eiddo mwy a fydd yn cynnwys cyfleusterau Changing Places, lle newid clytiau neillryw, mynediad i gadeiriau olwyn a phramiau.

Ein prif ffocws yw deall a dathlu amrywiaeth ein cymuned a chreu amgylchedd sy'n gynhwysol ac yn hygyrch i bawb. Byddwn yn darparu'r modd a'r gefnogaeth i'r gymuned wneud y newidiadau blaengar y maen nhw am eu gwneud, a byddwn yn gweithio gyda'r gymuned i ddeall y materion sy'n bwysig iddynt a datblygu prosiectau i fynd i'r afael â hwy. Byddwn yn hyrwyddo ac yn cyflawni camau gweithredu sy'n dathlu Dinbych a'i chymuned ysbrydoledig, arloesol.



Rydym yn credu'n gryf yng ngwaith y gymuned a chydweithio, gan gydweithio i gyflawni mwy.

Er gwaethaf heriau'r pandemig, rydym wedi llwyddo i sicrhau cynnydd cyson.

- ♦ Rydym wedi sicrhau safle i'w rentu yn Ninbych hyd at 2032, gyda'r opsiwn i symud os byddwn yn gweld safle addas i'w brynu a sicrhau'r cyllid priodol i gyflawni'r nod hwn.
- ♦ Rydym yn cael ein llethu gyda'r gefnogaeth rydym wedi'i chael gan gynnwys dros £15K o gymorth mewn rhoddion; gwirfoddolwyd dros 1000 awr, a chyfrannwyd deunyddiau ac eitemau i helpu i sefydlu Y Tŷ Gwyrdd.
- ♦ Rydym wedi sicrhau £17,702 o gyllid gan Raglen Cyfleusterau Cymunedol (RhCC) Llywodraeth Cymru i helpu i dalu costau gwariant cyfalaf i sefydlu Y Tŷ Gwyrdd.
- ♦ Rydym wedi sicrhau £6,352 o gyllid gan Grant Fferm Wynt Coedwig Clocaenog fel arian cyfatebol ar gyfer y RhCC a chais am gyllid gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).
- ♦ Rydym wedi sicrhau cyllid o £2,655 i gyflwyno cam 1 prosiect lles therapi celf i guradu arddangosfa o waith celf cymunedol sy'n adlewyrchu teimladau a gweithgareddau yn ystod y cyfnodau clo, ac i gyflwyno cyfres o weithdai clai. Bydd y cyllid cychwynnol a

ddyfarnwyd gan Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru yn ein galluogi i weithio gyda phlant ag anghenion cymhleth. Bwriedir gwneud rhagor o geisiadau am gyllid i'n galluogi i gynnig y cyfle hwn i weithio gyda chlai i eraill. Bydd teils unigol a gynhyrchwyd yn y gweithdai yn cael eu hymgorffori mewn murlun cymunedol cydweithredol a ddyluniwyd ac a grëwyd gan yr artist proffesiynol lleol Wendy Lawrence, i'w arddangos yng Nghanol Tref Dinbych fel cymynrodd o'r cyfnod heriol hwn mewn hanes.

- ♦ Rydym wedi derbyn cyllid o £750 gan Fwrdd Crwn Dinbych i helpu i sefydlu prosiect garddio i blant yn Ninbych. Rydym yn cydweithio â'r Woodland Skills Centre i gyflawni'r prosiect hwn.

Nod y Y Tŷ Gwyrdd yw:

- ♦ Creu gofod cymunedol cadarnhaol a chreadigol.
- ♦ Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydaddoldeb.
- ♦ Cefnogi gweithgareddau gan ganolbwyntio ar gydlynw cymunedol, iechyd corfforol a meddyliol a lles.
- ♦ Ymgysylltu â'r gymuned am yr economi gylchol.
- ♦ Darparu cyfleoedd i gefnogi lleihau ein heffaith

ar yr amgylchedd gan gynnwys lleihau ôl troed carbon cyfunol.

- ♦ Gwneud siopa ail-lenwi, gwastraff isel yn fforddiadwy.
- ♦ Darparu gofod gweithdy hyblyg.
- ♦ Ymgysylltu'n weithredol ag ystod eang o randdeiliaid lleol.
- ♦ Cefnogi twf economaidd lleol.
- ♦ Dathlu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.
- ♦ Creu cyfleoedd cyflogaeth cyflog byw gwirioneddol a gwirfoddoli cynaliadwy, o ansawdd uchel.

Drwy gydol y 18 mis diwethaf mae Y Tŷ Gwyrdd wedi gweithio'n galed i sicrhau ei fod yn cael cefnogaeth y bobl a bod ei gynnig yn adlewyrchu anghenion y gymuned. Mae ymchwil a gynhaliwyd drwy ein gwefan, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, presenoldeb mewn grwpiau rhwydweithio, a sgysiau gyda'r cyhoedd wedi dangos cefnogaeth gref iawn i Y Tŷ Gwyrdd.

Ceir cefnogaeth galonogol gan grwpiau cymunedol lleol, busnesau a mentrau, ac mae lluo o hwyluswyr gweithdai wedi mynegi diddordeb mewn llogi lle i gyflwyno cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau. Mynegodd busnesau ac artistiaid lleol.





GWYBODAETH AM Y CYNNIG CYFRANDDALIADAU CYMUNEDOL

Mae cyfranddaliadau cymunedol yn gyfranddaliadau y gellir eu tynnu'n ôl na ellir eu gwerthu, eu masnachu na'u trosglwyddo rhwng aelodau, yn wahanol i gyfranddaliadau mewn cwmni nodweddiadol. Mae gan bob aelod hawl i un bleidlais – ni waeth faint o gyfranddaliadau sydd ganddynt. Rydym yn gwneud ein harian fel busnesau eraill, drwy werthu nwyddau a gwasanaethau ond rydym yn buddsoddi elw yn ôl yn y sefydliad a'r gymuned.

Mae angen eich cefnogaeth i weithredu fel arian cyfatebol i helpu i sicrhau bod arian grant sylweddol ar gael ar gyfer caffael a datblygu adeilad parhaol sy'n eiddo i'r gymuned yn Ninbych i ddiwallu anghenion y gymuned. Credwn y gallai pob £1 a fuddsoddir gan y gymuned ddenu £10 ychwanegol mewn cyllid grant.

Byddwn yn cynnal y cynnig cyfranddaliadau cymunedol hwn rhwng **dydd Sadwrn 1 Mai 2021 a dydd Llun 31 Mai 2021.**

Yr isafswm buddsoddiad yw £30 a'r uchafswm buddsoddiad yw £1000.

Gellir gwneud taliadau mewn rhandaliadau, a fydd, gobeithio, yn golygu bod y gwahoddiad hwn yn hygyrch i bawb sydd am gymryd rhan.

Yr ydym eisoes wedi llwyddo i sicrhau rhywfaint o arian grant. Bydd y cynnig cyfranddaliadau hwn yn gwella ein siawns o fod yn llwyddiannus gyda'r mathau o geisiadau am gyllid sydd eu hangen i brynu ac adnewyddu adeilad.

Rydym yn gobeithio codi **isafswm o £5,000 ac uchafswm o £20,000.**

Bydd y cyllid a godir yn cael ei gadw mewn cyfrif ar wahân yn enw Y Tŷ Gwyrdd a'i gadw ar gyfer y cynnig cyfranddaliadau yn unig. Os codwn lai na £5,000 byddwn yn rhoi'r dewis i'r buddsoddwyr dynnu eu cyfranddaliadau yn ôl. Os cyrhaeddwn y targed uchaf o £20,000 byddwn yn cau'r cynnig cyfranddaliadau hwn.

Efallai y byddwn yn gwneud cynnig cyfranddaliadau arall yn y dyfodol.

Dyfernir y Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol gan yr Uned Cyfranddaliadau Cymunedol i gynigion sy'n bodloni safonau cenedlaethol o arfer da.

I gael rhagor o wybodaeth am gyfranddaliadau cymunedol, y Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol a'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol ewch i:

<https://www.uk.coop/start-new-co-op/support/community-shares/standards>

Nid yw'r cynnig hwn yn dod o dan Gynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol, felly mae perygl i chi golli rhywfaint neu'r cyfan o'r arian rydych yn ei fuddsoddi. Ni ddylech fuddsoddi mwy o arian nag y gallwch fforddio ei golli.



GWYBODAETH CYFRANDDALWYR

Rydym yn rhagweld y bydd cyfranddalwyr Y Tŷ Gwyrdd yn bobl sy'n byw yn Ninbych a'r ardaloedd cyfagos, yn ogystal â'r rhai sydd â chysylltiad â Dinbych a hoffai ei gweld yn ffynnu!

Byddwn yn cynnig cyfle i aelodau gymryd rhan fel gwirfoddolwyr, a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am waith Y Tŷ Gwyrdd. Gwahoddir yr Aelodau i fynychu a chymryd rhan yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol, ac i gyflwyno syniadau ar gyfer prosiectau a gweithgareddau drwy'r grŵp llywio a phleidleisio ar y rhai sy'n bwysig iddynt.

Nid ydym yn bwriadu talu llog ar y cyfranddaliadau a gobeithiwn y bydd buddsoddwyr yn gweld hyn fel buddsoddiad yn nyfodol Dinbych yn hytrach na buddsoddiad economaidd i wneud arian.

Dewiswyd y strwythur Budd Cymunedol gan ein bod yn teimlo mai hon oedd y ffordd orau o gynrychioli ein gweledigaeth o gyfleuster cydweithredol ar lawr gwlad yn Ninbych, sy'n eiddo i'r gymuned ac yn cael ei rhedeg ganddi!

Rydym yn derbyn ceisiadau am aelodaeth ar y cyd ac aelodaeth gorfforaethol ar gyfer unrhyw fusnesau lleol sydd am gymryd rhan. Os ydych yn gwneud cais am aelodaeth ar y cyd neu gorfforaethol, gellir enwebu un cynrychiolydd i ddal hawliau pleidleisio ar ran y grŵp neu'r busnes.

Rhaid i fuddsoddwyr fod yn 16 oed a throsodd, er ein bod yn derbyn ceisiadau am aelodaeth gan bobl sydd eisiau prynu cyfranddaliadau fel anrhegion i'w plant a'u hwyrion – symbol o fuddsoddi yn nyfodol Dinbych!

Byddai prynwr y cyfranddaliadau yn dal yr hawliau pleidleisio ar ran y plentyn nes iddo gyrraedd 16 oed.

Ni all neb gael mwy nag un bleidlais. Os ydych eisoes yn gyfranddaliwr sy'n dymuno prynu cyfranddaliadau fel rhodd bydd angen enwebu oedolyn arall i ddal yr hawliau pleidleisio ar ran y plentyn.





BETH YDYM NI'N EI WNEUD?

Yn y lle cyntaf rydym yn rhentu safleoedd i hyrwyddo cysyniad Y Tŷ Gwyrdd, i ddatblygu canolfan gymunedol i ddiwallu anghenion lleol, ac i barhau i fagu rhwydweithiau a chydweithio i sicrhau dull mwy cydlynol.

Mae llawr gwaelod yr eiddo yn siop gymunedol sy'n cynnig bwydydd lleol, ail-lenwi a gwastraff isel, eitemau cartref a chynnyrch garddio (ecogyfeillgar Tanyard's), a gwaith celf a chrefft lleol. Rydym yn cynnig diodydd a byrbrydau i fynd. Pan fydd covid yn caniatáu byddwn yn cynnal gweithdai trwsio rheolaidd, yn agor cornel lyfrau ein plant, ac yn cynnig gweithdai a gweithgareddau tymhorol. Yn ogystal, rydym yn awyddus i ddarparu cyfleoedd gwaith cyflog byw gwirioneddol a gwirfoddoli.

Yn y dyfodol hoffem sicrhau arian i brynu eiddo y bydd y gymuned yn berchen arno gan alluogi ymestyn yr ystod o gyfleusterau a gynigiwn i gynnwys:

- ♦ Caffi
- ♦ Oriel Gelf
- ♦ Nosweithiau â thema (comedi, cerddoriaeth, clwb swper, sgysiau...)
- ♦ Cyfleusterau newid clytiau babanod neillryw
- ♦ Cyfleusterau Changing Places
- ♦ Toiled i'r anabl
- ♦ Hygyrchedd i gadeiriau olwyn a phramiau



Gwych!! Roedd angen hyn ar Ddinbych!

Y Tŷ Gwyrdd mae hyn yn swnio'n wych! Fedra i ddim aros nes byddwch chi'n agor Ffenestr hyfryd iawn!



CYLLID

Bydd arian a godir o'r cynnig cyfranddaliadau hwn yn cael ei gadw fel arian cyfatebol i gefnogi ceisiadau i noddwyr am y costau a amlinellwyd yn y tabl Crynodeb Ariannol isod i helpu'r Tŷ Gwyrdd i sicrhau eiddo y bydd y gymuned yn berchen arno. Byddai'r rhan fwyaf o'r costau yn cael eu sicrhau drwy gyllid grant.

O fewn 24 mis rydym yn anelu at ddyrannu'r cronfeydd hyn i gaffael adeilad – os na wnaed cynnydd ar ôl 24 mis, bydd y cyfranddalwyr yn cael yr opsiwn i bleidleisio a ddylid bwrw ymlaen â phrynu adeilad neu barhau i fasnachu mewn eiddo rhent ac ailddyrrannu'r arian at ddiben cymunedol arall y pleidleisiwyd amdano gan y cyfranddalwyr.

Efallai y byddwn yn ystyried cynnig cyfranddaliadau dilynol yn y dyfodol i godi arian ychwanegol yn ôl y gofyn.

Rydym wedi bod yn archwilio adeiladau posibl yn Ninbych y gellid eu trawsnewid yn gyfleuster cymunedol a rennir. Cost ddisgwyliedig prynu ac adnewyddu angenrheidiol i sicrhau bod yr adeilad yn cyrraedd y safon yw £400K - £500K. Mae cyllidwyr priodol a nodwyd ac y byddwn yn cysylltu â nhw wedi'u cynnwys yn y tabl Crynodeb Ariannol isod. Cysylltwyd â'r cyllidwyr hyn i gyflwyno cysyniad Y Tŷ Gwyrdd. Mae'r ymateb a gafwyd wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Crynodeb Ariannol Y Tŷ Gwyrdd		
Arian a godwyd i sefydlu Y Tŷ Gwyrdd hyd yma	Swm	Nodiadau
Ysgol ar gyfer Entrepreneuriaid Cymdeithasol	£1,500.00	Dyfarnwyd i'r Cyfarwyddwr M Pearce i gefnogi sefydlu Y Tŷ Gwyrdd (Mehefin 2020)
Cefnogaeth mewn rhoddion	£15,000.00	Amser, rhoddion, deunyddiau ac eitemau wedi'u gwirfoddoli i gefnogi sefydlu Y Tŷ Gwyrdd
Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol (CFP)	£17,702.00	Cyllid ar gyfer costau gwariant cyfalaf i gefnogi sefydlu Y Tŷ Gwyrdd (Mawrth 2021)
Cronfa Twf Busnes Cymdeithasol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA SBGF)	£29,127.00	Mynd i'r panel ganol Ebrill. Os yn llwyddiannus bydd yn ariannu costau gwariant refeniw a chyfalaf i gefnogi sefydlu Y Tŷ Gwyrdd
Grant Fferm Wynt Coedwig Clocaenog	£6,352.00	Arian cyfatebol ar gyfer CFP & WCVA SBGF i gefnogi sefydlu Y Tŷ Gwyrdd (Rhagfyr 2020)
Benthyciad di-log preifat	£20,000.00	Arian cyfatebol ar gyfer WCVA SBGF i gefnogi sefydlu Y Tŷ Gwyrdd (Tachwedd 2020)
Cronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru (Cronfa Gofal Integredig Gofalwyr a Phlant ag Anghenion Cymhleth ac Anableddau Dysgu)	£2,655.00	Cefnogaeth ar gyfer Cam 1 prosiect celf lles cymunedol sy'n adlewyrchu effaith pandemig Covid-19 (Ionawr 2021)
Bwrdd Crwn Dinbych	£750.00	Cefnogaeth ar gyfer prosiect garddio i blant yn Ninbych (Mawrth 2021)
Cyfanswm		£93,086.00



Caffael eiddo – amcangyfrif costau		Noddwyr a nodwyd i gefnogi caffael eiddo	Ystod gwerth	Nodiadau
EITEM	CYFANSWM (gyda TAW)			
Pris prynu	£120,000.00	Cronfa Datblygu Asedau Cymunedol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CADF CGGC)	Uchafswm £150,000	Cefnogi prynu ac adnewyddu ased sy'n eiddo i'r gymuned. Angen arian cyfatebol o 40%. Yn cynnwys grant o 40%/ 60% benthyciad addaladwy (llog o 0%, dros 10 mlynedd, gan ddechrau o Flwyddyn 3
Ffioedd pensaer yn cynnwys cynlluniau llawr (presennol a chynlluniedig), lluniadau cais cynllunio, cynllunio newid defnydd	£3,000.00			
Lluniadau Rheoliadau Adeiladu, arolygu/adrodd, cymeradwyo	£3,200.00	Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru	£25,000 - £250,000	Cynllun grant cyfalaf - rhaid ei ddefnyddio i ariannu gwelliannau ffisegol i gyfleusterau cymunedol. Nid yw costau refeniw yn gymwys. Mae angen arian cyfatebol, ond ni nodir isafswm.
Ffioedd Cyfreithiol	£1,000.00			
Gwaith adeiladu (strwythurol hanfodol)	£150,000.00	Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol		Cronfeydd amrywiol ar gael ar gyfer atgyweirio ac adfer treftadaeth, a phrosiectau sy'n cefnogi pobl a chymunedau £10,000 - £500,000.
Gwaith adeiladu (ffitio'r lle)	£50,000.00			
Gwariant cyfalaf siop a stoc	£15,000.00			
Caffi a chegin	£20,000.00			
Dodrefn awyr agored, decin/patio, planhigion, ffensys...	£4,000.00			
Offer swyddfa, dodrefn, costau TG	£3,000.00			
Lle chwarae dan do i blant	£1,500.00			
Iechyd a Diogelwch: Diogelwch Tân, gwasanaethu, profi PAT, a chymorth cyntaf, system ddiogelwch	£3,000.00			
Costau Llafur a threuliau gwirfoddolwyr (12 mis)	£40,000.00			
Ffioedd cyfrifyddu (12 mis)	£1,500.00			
CYFANSWM	£415,200.00			



Mae'r tabl isod yn dangos ein hincwm a'n gwariant disgwylledig ar gyfer ein tair blynedd gyntaf o fasnachu. Mae hyn wedi'i seilio ar boblogaeth Dinbych a'r gymuned gyfagos ac ymchwil i'r farchnad leol. Rydym eisoes wedi sicrhau dros 70% o'r cyllid grant ac incwm benthyciadau a ddefnyddir yn y model hwn. Mae'r cyllid grant rhagamcanol (prosiect penodol) yn cynnwys 10% tuag at orbenion.

RHAGAMCAN ELW A CHOLLED Y Tŷ GWYRDD – Y TAIR BLYNEDD GYNTAF			
Incwm	Bl1 (i 31.05.2022)	Bl2 (i 31.05.2023)	Bl3 (i 31.05.2024)
Siop	£ 54,000.00	£ 97,650.00	£ 156,000.00
Caffi/ Bwyd i Fynd	£ 18,000.00	£ 83,700.00	£ 117,000.00
Llogi Adeilad	£ 750.00	£ 2,250.00	£ 3,750.00
Lle gyda thenant	£ 5,400.00	£ 8,400.00	£ 12,000.00
Cyllid Grant/Benthyciad	£ 106,586.00	£ 50,000.00	£ 50,000.00
Cyfanswm Incwm	£ 184,736.00	£ 242,000.00	£ 338,750.00
Gwariant			
Darparu prosiect (wedi'i ariannu)	£ 30,064.50	£ 45,000.00	£ 45,000.00
Costau sefydlu (wedi'u hariannu)	£ 17,702.00	£ -	£ -
Costau Gweithredu	£ 99,730.00	£ 151,945.00	£ 231,658.00
Ad-dalu Benthyciadau (di-log)	£ 6,680.00	£ 8,393.22	£ 10,126.44
Cyfanswm Gwariant	£ 154,176.50	£ 205,338.22	£ 286,784.44
Elw/ Colled	£ 30,559.50	£ 36,661.78	£ 51,965.56
dyled (eto i'w thalu ar ddiwedd y flwyddyn)	£ 30,652.20	£ 22,258.98	£ 12,132.54



YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

Cymuned yw popeth yn Y Tŷ Gwyrdd! Rydym yn gobeithio y bydd y gymuned yn ymgysylltu â ni mewn nifer o wahanol ffyrdd. Gall Aelodau gymryd rhan yn y broses o benderfynu pa weithgareddau a phrosiectau sy'n cael eu cyflawni. Gellir sianelu syniadau drwy grŵp llywio a bydd pleidleisio'n digwydd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.

Rydym yn hynod werthfawrogol o'r gefnogaeth a gawsom i'n helpu i symud ymlaen mor bell â hyn. Ni allem fod wedi gwneud hynny heb gefnogaeth nifer o bobl yn gwirfoddoli eu hamser, eu sgiliau a'u profiad – peintio'r siop, cyfrannu ac uwchgylchu dodrefn, glanhau ac addurno, cefnogaeth foesol, syniadau ac awgrymiadau.

Byddwn yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth gwirfoddol a chyflog byw gwirioneddol, gan gynnwys profiad manwerthu yn y siop, ymgysylltu â'r gymuned, darparu gweithdai, marchnata digidol a chyfathrebu.

Nod Y Tŷ Gwyrdd yw adlewyrchu'r gymuned gyfan drwy'r gweithgareddau a'r digwyddiadau y mae'n eu cynnig. Byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y prosiectau a ledled y gymuned.

Rydym wedi derbyn llawer o syniadau gwych am ddigwyddiadau i'w cynnal fel gigs cerddoriaeth a chomedi, nosweithiau â thema, clwb swper rheolaidd, gigs yn arddangos artistiaid lleol, cyfnewidfa teganau, a lleoliad ar gyfer newid clytiau. Rydym am greu man lle gall pobl ddod i gyfarfod a chysylltu â'i gilydd, mynegi eich hun, a chael hwyl yn cymryd rhan yn eich cymuned.



Edrych yn anhygoel!

*Oooh Alla i ddim aros,
byddaf yn bendant i mewn
cyn gynted ag y byddwch
chi ar agor x*

Gobeithio y bydd yn

“Siopa, Chwarae, Creu, Ail-lenwi”



MWY O WYBODAETH | PETHAU CYFREITHIOL!

Y Pwyllgor Rheoli – Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr gyda'i gilydd yn atebol am reoli'r Tŷ Gwyrdd, gan gyfarfod bob pedair i chwe wythnos. Maent yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o reoli gweithrediadau busnes y Gymdeithas o ddydd i ddydd.

Buddsoddiadau'r Pwyllgor Rheoli

Rhoddodd Marguerite Pearce fenthyciad Cyfarwyddwr o £600 i'r Tŷ Gwyrdd, a fydd yn cael ei drosi'n gyfranddaliadau.

Sicrhodd Marguerite Pearce fenthyciad di-log o £20,000 am 3 blynedd ar gyfer Y Tŷ Gwyrdd fel arian cyfatebol ar gyfer y cais Cronfa Twf Busnes Cymdeithasol CGGC.

Gwrthdaro Buddiannau

Rhaid i aelodau'r Pwyllgor Rheoli bob amser weithredu er budd gorau'r sefydliad ac mae'n ofynnol iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad allanol a allai fod yn gwrthdaro â'u rôl ar y Pwyllgor Rheoli.

Risgiau

Fel gydag unrhyw fuddsoddiad, mae risg ynghlwm wrth hyn. Pe bai Y Tŷ Gwyrdd yn mynd i drafferthion ariannol:

- ♦ Efallai y bydd yn rhaid i ni atal eich hawliau i dynnu cyfranddaliadau yn ôl.
- ♦ Efallai y byddwch yn colli rhywfaint neu'r cyfan o'r arian rydych yn ei dalu am eich cyfranddaliadau.

Os caiff Y Tŷ Gwyrdd ei ddirwyn i ben, defnyddir ei asedau yn gyntaf i fodloni ei rwymedigaethau; nesaf i ad-dalu aelodau o'u cyfranddaliadau; yn olaf, bydd unrhyw warged sy'n weddill yn cael ei throsglwyddo i elusen, cymdeithas neu gorff asedau ar glo arall sy'n gwasanaethu cymuned Dinbych.

Os bydd aelod yn marw, gall ei gynrychiolydd personol wneud cais i dynnu'r cyfalaf cyfranddaliadau yn ôl. Bydd y Bwrdd yn rhoi blaenoriaeth i ddychwelyd cyfalaf cyfranddaliadau o dan y ddarpariaeth hon dros unrhyw elw arall o gyfalaf aelodau. Rydym yn annog darpar aelodau i ystyried eu buddsoddiad fel ymrwymiad hirdymor i'r prosiect; buddsoddiad untro i greu budd ariannol hirdymor i chi'ch hun a chyfle i helpu i ddarparu

cyfleuster i gymuned Dinbych i ymfalchïo ynddo a'i fwynhau gan bawb.

Dylai cyfranddalwyr fod yn barod i glymu eu cyfalaf am nifer o flynyddoedd. Ni ellir tynnu cyfalaf cyfranddaliadau yn ôl am bum mlynedd gyntaf y buddsoddiad ac wedi hynny dim ond yn ôl disgresiwn y Cyfarwyddwyr.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cadw'r hawl i wrthod cais i dynnu buddsoddiad yn ôl er mwyn diogelu sefydlogrwydd sefyllfa ariannol y gymdeithas.

Mae Y Tŷ Gwyrdd wedi'i gofrestru fel cymdeithas gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), ond nid yw gwerthu cyfranddaliadau cymunedol yn cael ei reoleiddio gan yr FCA. Fel llawer o fuddsoddiadau, mae cyfranddaliadau cymunedol yn risg a gallech golli rhywfaint neu'r cyfan o'r arian rydych yn ei fuddsoddi. Nid yw cyfranddaliadau cymunedol yn dod o dan Gynllun lawndal y Gwasanaethau Ariannol, ac nid oes unrhyw hawl i gwyno i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Os ydych yn ystyried buddsoddi swm sylweddol, yna efallai yr hoffech ofyn cyngor ariannol annibynnol cyn gwneud hynny.



CWRDD Â'R TÎM

Marguerite Pearce, Director

Magwyd Marguerite yn lleol, ac ar ôl cyfnod i ffwrdd yn astudio, gweithio a theithio, dychwelodd i'r ardal yn 2015 i ymgartrefu yn Ninbych. Mae hi'n fam i ddwy ferch fach brysur, chwilfrydig iawn, ac yn gyd-gyfarwyddwr ymgynghoriaeth amgylcheddol teuluol gyda'i gŵr Steve. Yn angerddol am yr awyr agored, natur a diogelu yr amgylchedd, dros y blynyddoedd mae wedi ymchwilio a phrofi cynhyrchion ecogyfeillgar at ddefnydd personol. Er mwyn gwrthio dilyniant, mae'n credu bod angen i fwy o opsiynau fod ar gael am brisiau mwy fforddiadwy. Yn realistig, mae gallu defnyddwyr i wneud newidiadau yn dibynnu ar gyflenwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, a'u gweithdrefnau gweithgynhyrchu a gweithredu. Mae angen i wybodaeth fod yn gliriach ac ar gael yn fwy rhwydd er mwyn i bobl allu gwneud dewisiadau moesegol gwybodus. Bydd Y Tŷ Gwyrdd yn helpu i dynnu'r gwaith caled allan o siopa'n gyfrifol.

Mae gan Marguerite sgiliau a phrofiad cynhwysfawr mewn ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned gan gyflawni prosiectau drwy ei rôl flaenorol gyda Groundwork ym Manceinion, gan drawsnewid mannau gwyrdd mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol.



Mae ganddi brofiad helaeth o reoli prosiectau, gan weithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid cyhoeddus a phreifat i ddarparu gwasanaethau ymgynghori.

Trwy brofiad personol o fyw, gwirfoddoli, a gweithio yn Ninbych a'r cyffiniau, mae wedi gweld angen am le cymunedol i gefnogi a hyrwyddo gweithgareddau a digwyddiadau lleol. Yn benodol, iddo gynnwys lle dan do i blant, sy'n ystyriol o deuluoedd, cyfleusterau Changing Places, ac sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Mae wedi cael ei hysbrydoli gan greadigrwydd a chyfeillgarwch y gymuned leol a hoffai ymuno â'r mudiad i wneud cyfraniad cadarnhaol a sbarduno newid i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yma. Mae hyn, ynghyd â'i chariad at yr awyr agored a diogelu ein hamgylchedd, wedi ei hysgogi i sefydlu Y Tŷ Gwyrdd.

Wendy Lawrence

Ganed Wendy Lawrence yn Clitheroe yn Swydd Gaerhirfryn. Astudiodd yn Preston ac enillodd BA Anrh mewn Dylunio 3D, gan arbenigo mewn Cerameg.

Yna parhaodd â'i haddysg a phenderfynodd fynd i ddysgu ac ar ôl astudio ac ennill Tystysgrif Ôl-radd mewn Addysg, symudodd i Ogledd Cymru. Mae hi wedi parhau i fyw a gweithio yn Ninbych, gan rannu ei hamser rhwng ei busnes ei hun a'i hunanddatblygiad o ran ei gwaith, ei diwydiant a'i haddysgu.

Mae wedi dod yn artist cerameg llwyddiannus ac mae'n dangos ei gwaith yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ar ôl cael gwahoddiad i sawl Symposiwm a chynhadledd i addysgu, arddangos a darlithio. Mae ei chariad at gerameg a rhannu gwybodaeth wedi creu angerdd am Gerameg a sioeau curadu sy'n cynnwys croestoriad o waith gan artistiaid amrywiol.

Mae'n aelod o Academi Frenhinol Cambria ac yn aelod o gyngor cymdeithas Crochenwyr Crefft Prydain Fawr.



Mae'r addysgu bob amser wedi bod yn rhan bwysig o'i gyrfa ac ar hyn o bryd hi yw'r Darlithydd cerameg ym Mhrifysgol Glyndŵr.

Ochr yn ochr â'i chydweithiwr Wayne Clark mae hi hefyd yn gydlynnydd 'Gŵyl Cerameg Cymru'.

Rachael Evans

Ganed a magwyd Rachael ar fferm yn Cumbria a dechreuodd ddysgu'r piano yn saith oed. Ychydig a wyddai y byddai'n ei harwain at fyw yn Ninbych, y mae hi bellach yn ei ystyried fel adref. Astudiodd Rachael gerddoriaeth ym mhrifysgol Lerpwl lle cyfarfu â'i gŵr. Maent yn byw gyda'u tri phlentyn ifanc, 6, 4 ac 1 oed, ar fferm laeth.

Mae Rachael wedi gweithio fel athrawes gerdd ers 2008. Mae hyn wedi cynnwys gweithio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, corau a chlybiau blaenllaw cyn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar addysgu piano ar ôl cael ei phlentyn cyntaf. Mae'n dysgu piano mewn ysgolion drwy Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych ac yn breifat y tu allan i oriau ysgol.

Mae Rachael wedi gweld yr angen a'r pwysigrwydd dros y blynyddoedd i gael lle hygrych yn Ninbych i fynd â babanod a phlant a chymdeithasu â phobl eraill, yn enwedig pan fo pobl ar gyfnod mamolaeth. Y tu allan i'r gwaith, mae hi'n hapusach yn treulio amser gyda'i phlant, bod allan yn archwilio lleoedd newydd gyda ffrindiau a helpu ar y fferm pan y gall, gan gael eu plant i gymryd rhan hefyd! Mae'r fferm wedi bod yn gwneud newidiadau dramatig yn ddiweddar i leihau eu hól troed carbon gyda'r nod o fod yn ddi-garbon ac maent yn ceisio lleihau faint o blastig untro sy'n dod i'r cartref gam wrth gam a byw'n fwy cynaliadwy.





YN GWEITHIO MEWN CYDWEITHREDIAD Â



Storys Studio



Bee Kind projects



*Elysia's
textile
art*



DROSI BIKES



Ruthin Friends of the Earth

@foeruthin · Community Organization



YN FALCH O GAEL CEFNOGAETH GAN



BREWIN
DOLPHIN



Busnes Cymdeithasol Cymru
Social Business Wales

[/busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol](http://busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol)
[/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales](http://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales)



Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru



Academi Busnes Gogledd Cymru
North Wales Business Academy



**Denbigh and District Round
Table / Bwrdd Crwn Dinbych
Ar Cyffuniau**



Ffurflen Gais Cyfranddaliad Cymunedol Y Tŷ Gwyrdd



Llenwch y ffurflen hon a'i hanfon drwy e-bost at helo@ytygwyrdd.cymru
Neu drwy'r post i Y Tŷ Gwyrdd (siop Threads gynt), Back Row, Dinbych, LL16 3TE

Enw:

Cwmni / Mudiad:
(os yn berthnasol)

Enw'r gwarcheidwad:
(os o dan 16)

Cyfeiriad:

Cod Post:

E-bost:

Rhif Ffôn:

Hoffwn fuddsoddi £yn Y Tŷ Gwyrdd (isafswm £30 ac uchafswm £1000).

Bydd yr arian a godir yn cael eu cadw mewn cyfrif ar wahân yn enw Y Tŷ Gwyrdd a'i gadw
ar gyfer y cynnig cyfranddaliadau yn unig.

Am wybodaeth ychwanegol ewch i www.ytygwyrdd.cymru

Talwch drwy drosglwyddiad banc ar-lein neu cysylltwch â ni i drafod opsiynau talu amgen.

Enw'r Cyfrif: Y Tŷ Gwyrdd Limited

Rhif y Cyfrif: 6598 8154 Cod Didoli: 08-92-99

Rhowch gyfeirnod CYFENW ENW CYNTAF ar eich taliad.

- ☐ Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen y ddogfen cynnig cyfranddaliadau ac yn deall y telerau ac amodau.
- ☐ Rwy'n cadarnhau fy mod yn hapus i'r Y Tŷ Gwyrdd gadw fy manylion cyswllt ar gyfer cyfathrebu sy'n berthnasol i'r cynnig cyfranddaliadau a gweithgareddau cysylltiedig.
- ☐ Rwy'n cadarnhau fy mod yn hapus i dderbyn rhagor o wybodaeth (ni fydd manylion yn cael eu rhannu â thrydydd parti).

Llofnod:

Dyddiad: